FFURFLEN RHW19

# HYSBYSIAD O DYNNU YN ÔL HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNODOL

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 180(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad a roddwyd yn flaenorol o dan adran 173 o'r Ddeddf honno wedi ei dynnu yn ôl.*

| **Rhan A: Landlord** |
|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: |

| **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|
| Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Tynnu yn Ôl yr Hysbysiad i Ildio Meddiant** |
|---|
| Ar [*dyddiad*] ………………………… rhoddodd y landlord hysbysiad o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ei bod yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, ildio meddiant o'r annedd ar [*dyddiad*] …………………………<br><br>Mae'r landlord yn awr yn rhoi hysbysiad pellach o dan adran 180(3) o'r Ddeddf honno fod yr hysbysiad blaenorol y cyfeirir ato uchod wedi ei dynnu yn ôl. Os rhoddir yr hysbysiad hwn **ar ôl** 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad blaenorol, cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu yn ôl o fewn cyfnod rhesymol.<br><br>Rhaid rhoi'r hysbysiad hwn cyn i'r contract meddiannaeth ddod i ben. |

| **Rhan E: Yr Hawl i Wrthwynebu'r Tynnu yn Ôl**<br><br>*Ticiwch fel y bo'n gymwys.* | |
|---|---|
| ☐ | Darperir yr hysbysiad hwn **yn ystod** y 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. **Ni** chewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu yn ôl yr hysbysiad hwnnw. |
| ☐ | Darperir yr hysbysiad hwn **ar ôl** 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu yn ôl yr hysbysiad hwnnw. Rhaid i unrhyw wrthwynebiad fod mewn ysgrifen, a rhaid ei ddyroddi i'r landlord cyn diwedd cyfnod rhesymol. |
| | |

| Rhan F: Llofnod | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |

**Defnyddio’r ffurflen hon**

Dylid defnyddio’r ffurflen hon ar gyfer pob contract safonol cyfnodol, gan gynnwys contractau safonol rhagarweiniol neu gontractau safonol ymddygiad gwaharddedig, ac ni waeth faint yw hyd y cyfnod hysbysu.

**Cyfyngiadau ar roi hysbysiadau pellach**

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract hysbysiad pellach o derfynu o dan adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 o fewn chwe mis i ddyddiad yr hysbysiad tynnu yn ôl hwn.

Mae hyn yn ddarostyngedig i’r eithriad y caiff y landlord, o fewn 28 o ddiwrnodau i’r hysbysiad terfynu cyntaf o dan adran 173 o’r Ddeddf honno (h.y. yr hysbysiad y mae’r hysbysiad hwn yn ei dynnu yn ôl), roi i ddeiliad neu ddeiliaid y contract un hysbysiad terfynu pellach o dan adran 173 o’r Ddeddf honno.